**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DDEDDFWRIAETHOL

## Y BIL HAWLIAU DEFNYDDWYR: GWELLIANNAU MEWN PERTHYNAS Â FFIOEDD ASIANTAETHAU GOSOD

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn gerbron o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac y ceir gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os gwneir darpariaeth mewn perthynas â Chymru mewn Bil Seneddol y DU at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

2. Cyflwynwyd y Bil Hawliau Defnyddwyr (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Ionawr 2014. Gellir gweld y Bil yn: http://services.parliament.uk/bills/2014-15/consumerrights.html

## Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

4. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw egluro a symleiddio hawliau defnyddwyr, gwneud darpariaeth ynghylch pwerau ymchwilio ar gyfer rheoleiddio masnachwyr, gwneud defnyddwyr yn fwy gwybodus a'u diogelu yn well.

5. Mae'r Bil yn pennu fframwaith sy'n cydgrynhoi, mewn un man, hawliau allweddol defnyddwyr mewn perthynas â chontractau am nwyddau, gwasanaethau, cynnwys digidol a'r gyfraith sy'n ymwneud â thelerau annheg mewn contractau defnyddwyr. Yn ychwanegol, mae'r Bil yn cyflwyno llwybrau haws i ddefnyddwyr a busnesau bach a chanolig (BBaChau) herio ymddygiad gwrth-gystadleuol drwy'r Tribiwnlys Apelau Cystadlu ("TAC").

6. Mae'r Bil hefyd yn cydgrynhoi pwerau gorfodwyr, fel y'u rhestrir yn Atodlen 5, i ymchwilio i doriadau posibl o gyfraith defnyddwyr. Mae'r Bil yn ei gwneud yn eglur y caiff gorfodwyr penodol (Safonau Masnach) weithredu ar draws ffiniau llywodraeth leol. Bydd hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i'r llysoedd sifil a gorfodwyr cyhoeddus, i gymryd y camau mwyaf priodol ar gyfer defnyddwyr wrth ymdrin â thoriadau neu doriadau posibl o gyfraith defnyddwyr. Yn ogystal, mae'n gosod dyletswydd ar asiantaethau gosod i gyhoeddi eu ffioedd.

7. Mae tair Rhan i'r Bil:

- Contractau defnyddwyr ar gyfer nwyddau, cynnwys digidol a gwasanaethau;

- Telerau annheg; ac
- Amrywiol a chyffredinol, sy'n cynnwys pwerau ymchwilio, diwygio Rheoliadau Pwysau a Mesurau (Nwyddau a Becynnwyd) 2006 a Deddf Menter 2002: gwell mesurau defnyddwyr a gorfodaeth arall; achosion preifat yn y gyfraith ynglŷn â chystadleuaeth; a dyletswydd ar asiantwyr gosod i gyhoeddi eu ffioedd.

**Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

8. Ceisir cydsyniad y Cynulliad i'r gwelliannau i'r Bil Hawliau Defnyddwyr, a gyflwynwyd gan y Farwnes Neville-Rolfe ar 7 Hydref 2014.

9. Bydd y gwelliannau hyn (ymhlith pethau eraill) yn diwygio Pennod 3 o Ran 3 o'r Bil. Mae Pennod 3 yn ymwneud â'r ddyletswydd sydd ar asiantwyr gosod i gyhoeddi eu ffioedd. Yn gryno, y ddyletswydd honno yw fod rhaid i asiantwyr gosod arddangos neu gyhoeddi, yn amlwg ym mhob un o'u mangreoedd ac ar eu gwefan, restr o'u ffioedd perthnasol (gan gynnwys treth) ynghyd â disgrifiad sy'n nodi pa wasanaeth, cost neu ddiben a gynhwysir ym mhob ffi.

10. "Ffioedd perthnasol" yw'r ffioedd sy'n daladwy i'r asiant gosod, gan landlord neu denant mewn cysylltiad â gwaith asiantaeth gosod neu waith rheoli, mewn cysylltiad â thenantiaethau sicr. Dylai'r rhestr wneud yn eglur hefyd a yw'r ffi yn berthnasol i bob tenant o dan y denantiaeth ynteu i bob eiddo. Os nad yw'n bosibl yn rhesymol benderfynu'r ffi ymlaen llaw, rhaid i asiantwyr ddarparu disgrifiad o'r modd y cyfrifir y ffi sydd dan sylw.

11. Bwriedir i'r awdurdodau lleol, pan fo asiant wedi torri'r ddyletswydd, orfodi'r gofyniad drwy'r ddarpariaeth o gosb sifil, ac ni chaiff fod yn fwy na £5,000. Bydd apelau yn erbyn gosod y gosb sifil yn cael eu clywed gan lys neu dribiwnlys.

12. Ymhlith pethau eraill, bydd y gwelliannau'n darparu bod Pennod 3, a'r Atodlen newydd sy'n gysylltiedig, yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Yn ychwanegol, rhoddir y pŵer i gychwyn y darpariaethau hyn i Weinidogion Cymru.

13. Mae'r gwelliannau yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, fel a ganlyn:
    - Cymal 81(5) – pŵer i bennu ffyrdd eraill y bydd yn rhaid i asiantwyr gosod hysbysebu eu ffioedd a'r manylion amdanynt (gweithdrefn penderfyniad negyddol).
    - Cymal 82(3)(b) – pŵer i bennu pa bersonau nad ydynt yn asiantwyr gosod at ddibenion y gofyniad i hysbysebu ffioedd (gweithdrefn penderfyniad negyddol).
    - Cymal 83(2)(d) – pŵer i bennu ffioedd, etc. sy'n esempt rhag y gofyniad i'w hysbysebu (gweithdrefn penderfyniad negyddol).

- Mewnosodir cymal newydd (Gorfodi'r ddyletswydd) ar ôl cymal 84 ac yn lle cymal 85. Ym mharagraff (12) o'r cymal newydd hwnnw, rhoddir pŵer i wneud rheoliadau sydd (a) yn diwygio unrhyw ddarpariaethau o'r cymal newydd, neu'r Atodlen newydd sy'n gysylltiedig (Dyletswydd ar asiantwyr gosod i hysbysebu ffioedd), yn y modd y'u cymhwysir i awdurdodau pwysau a mesurau lleol yng Nghymru, a (b) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 5 (Pwerau ymchwilio etc.) (gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol).

14. Offeryn statudol 'gweithdrefn penderfyniad negyddol' yw offeryn sydd:
    (i) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad; neu
    (ii) a osodir gerbron mewn drafft ond na ellir ei wneud os anghymeradwyir y drafft**.**

15. Offeryn statudol neu offeryn statudol drafft 'gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol' yw offeryn a osodir gerbron y Cynulliad, ac oni chymeradwyir ef drwy benderfyniad y Cynulliad:
    (i) ni ellir ei wneud;
    (ii) ni all ddod i rym; neu
    (iii) ni all barhau mewn grym y tu hwnt i'r cyfnod a bennwyd yn y deddfiad a roddodd y pŵer i wneud yr offeryn.

16. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â gosod tenantiaethau preswyl o dan baragraff 11 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

17. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau hyn mewn perthynas â Chymru.

18. Bydd hyn o fudd i denantiaid a darpar denantiaid yng Nghymru, drwy osod dyletswydd benodol ar asiantwyr gosod i arddangos neu gyhoeddi eu ffioedd. Bydd hyn o gymorth i sicrhau tryloywder y ffioedd a godir gan asiantwyr gosod. Bydd hefyd yn gwella'r sefyllfa gyfredol. Ar hyn o bryd, yw unig beth sydd ar gael yw deddfwriaeth a chanllawiau ar hawliau defnyddwyr sy'n argymell y dylai masnachwyr ddatgelu'n eglur, ac ymlaen llaw, y ffioedd y byddant yn eu codi.

19. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes yn cydnabod bod angen i ffioedd gosod eiddo fod yn fwy tryloyw. I fynd i'r afael â hyn, bwriadwyd ei gwneud yn ofynnol i asiantwyr gyhoeddi eu ffioedd yn y Cod Ymarfer sy'n ymwneud â thrwydded a roddir mewn cysylltiad â Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rydym bellach wedi penderfynu peidio â bwrw

ymlaen â hyn am fod y gwelliant i’r Bil Hawliau Defnyddwyr yn rhoi arf deddfwriaethol cryfach inni gyrraedd y nod hwnnw.

20. Byddai cyflwyno’r darpariaethau ar sail Cymru a Lloegr drwy’r Bil Hawliau Defnyddwyr yn sicrhau y bydd tenantiaid a darpar denantiaid yn cael budd o’r ddeddfwriaeth newydd yr un pryd â’u cymheiriaid yn Lloegr. Pe na bai’r Bil hwnnw yn gymwys i Gymru, byddai oedi o ran deddfu i gyflawni hyn gan nad oes Bil y Cynulliad ar gael ar hyn o bryd i osod dyletswydd ar asiantwyr gosod.

21. Byddai cyflwyno’r darpariaethau hyn ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr yn sicrhau na fydd tenantiaid yn drysu wrth i ddyletswydd gael ei rhoi ar asiantwyr gosod i hysbysebu eu ffioedd yn Lloegr ond nid yng Nghymru, yn enwedig mewn achosion trawsffiniol. Byddai hefyd yn osgoi unrhyw ddryswch ynglŷn â gorfodi yn achos unrhyw asiantwyr gosod sy’n gweithredu ar draws ffiniau.

**Goblygiadau ariannol**

22. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Hydref 2014**